ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	5 Rhagfyr 2018
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Swyddog Cymorth Technegol (Trwyddedu) licensing@denbighshire.gov.uk 01824 706451
TESTUN:	Deddf Gamblo 2005 – Adolygu Datganiad o Egwyddorion

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Cyflwyno fersiwn gyfredol o Ddatganiad o Egwyddorion y Cyngor, a fabwysiadwyd ac a roddwyd ar waith ar 1 Ebrill 2018, i Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu.

1.2 Yn dilyn gohebiaeth a dderbyniwyd yn ddiweddar gan y Comisiwn Gamblo oedd yn gorchymyn pob Awdurdod Trwyddedu i adolygu a mabwysiadu eu Datganiad o Egwyddorion i ddod i rym o 31 Ionawr 2019, rhaid gofyn i Aelodau ystyried ail-fabwysiadu'r Datganiad o Egwyddorion.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Yn unol â'r Ddeddf Gamblo 2005 mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu'r Datganiad o Egwyddorion bob tair blynedd.

2.2 Bydd Aelodau'n cofio bod y Datganiad o Egwyddorion presennol wedi ei fabwysiadu mor ddiweddar â 8 Mawrth 2018, gyda dyddiad gweithredu o 1 Ebrill.

2.3 Ystyrir felly, gan na fu newidiadau i'r Datganiad o Egwyddorion, byddai Aelodau yn ystyried ail-fabwysiadu'r Polisi cyfredol heb angen am ymgynghori pellach.

3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Adran 349, Deddf Gamblo 2005

4. GWYBODAETH GEFNDIR

Wrth bennu'r Datganiad o Egwyddorion, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried amcanion trwyddedu Ddeddf Gamblo 2005 a 'Chanllaw i Awdurdodau Trwyddedu' y Comisiwn Gamblo.

4.1 Mae'r amcanion trwyddedu statudol yn cynnwys:

- Diogelu plant a phobl ddiamddiffyn eraill rhag niwed neu ecsploetiaeth yn sgil gamblo
- Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd, a
- Sicrhau y cynhelir gweithgareddau gamblo mewn modd teg ac agored

4.2

Mae'r Datganiad o Egwyddorion wedi cael ei ddatblygu gan y chwech Awdurdod Trwyddedu yng Ngogledd Cymru, gan ddod â chysondeb i faterion sy'n ymwneud â materion a swyddogaethau Gamblo.

4.3

Rhaid adolygu a chyhoeddi'r Datganiad o Egwyddorion bob 3 blynedd mewn amserlen benodol. Mae'r cyfnod nesaf yn rhedeg o 31 Ionawr 2019.

5. YMGYNGHORI

5.1 Mae'r fersiwn hwn eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn gan gynnwys:

- Y Comisiwn Gamblo
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Yr Awdurdodau Cynllunio
- Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd a Diogelwch a Safonau Masnach
- Gwasanaethau Plant
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Cynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych

5.2 Cysylltwyd â chynrychiolwyr Trwyddedi a Hawlenni hefyd ac fe'u cynghorwyd am sut i ymateb drwy wefan y Cyngor.

5.3 Ni chafwyd ymatebion o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyn ei fabwysiadu ym mis Ebrill eleni ac ni ystyrir bod unrhyw ddiwygiadau yn angenrheidiol ar hyn o bryd.

6. YSTYRIAETH

6.1 Gofynnir i Aelodau ystyried ail-fabwysiadu'r fersiwn a gyflwynwyd yn unol â'r gyfarwyddeb gan y Comisiwn Gamblo heb orfod ymgynghori ymhellach er mwyn cyd-fynd â'u hamserlen ar gyfer adolygu.

6.2 Nid yw'r Datganiad o Egwyddorion wedi newid fel arall, ac felly o ganlyniad, ni fydd angen caniatâd pellach gan y Cyngor Llawn

7. ARGYMHELLION

7.1 Bod Aelodau'n cytuno i fabwysiadu'r Datganiad o Egwyddorion, fel y'i cyflwynir, gyda dyddiad gweithredu o 31 Ionawr 2019.